## Cyflwynedig i BOB OWEN ar ôl clywed ei fod 'wedi marw'

**gan berthynas agos i'r Bardd Cocos**

Un dydd
Aeth stori brudd
Drwy Gymru gyfan –
'Bob Owen druan
Wedi marw
Biti garw'.
Bob Owen dafodrydd,
Brenin Meirionnydd
Yn llonydd?
Ia, Bob wedi tewi,
A'i draed wedi oeri,
Cyn i neb sylweddoli
Ei fod wedi croesi
Myn dian-i.
Gadael ei lyfrau, a'i bapurau,
Yr 'hen balasau' a'r 'hen ewyllysiau'.
Darlithio, bygythio, protestio.
Bloeddio, gwylltio –
Yr oll wedi gorffen
Yn hanes Bob Owen.
Annodd yw coelio
Fod Bob wedi stopio
Smocio,
Ond y mae *wedi* ffarwelio,
Ac wedi glanio –
Gobeithio –
Yn y nefoedd
Lle caiff olrhain achau yn oes oesoedd!

(Y diwrnod wedyn)
Ffrindiau,
Sychwch eich dagrau.
Mae Bob yn rhodio
Yn ein plith ni eto.
Myn diawl,
Pe buasai gennyf hawl
Mi grogwn y sawl
A wnaeth stori gelwyddog
Am ŵr byd enwog.
Maent yn dweud mai un o'r Penrhyn
Oedd y jolpyn
Mawr ffôl
A'n gwnaeth 'one and all'
Deimlo'n 'small', –
Y *ni* yn ein dagrau
Yn ordro blodau.
Tra Bob yntau
Ar ei ffordd i Ddolgellau
Yn iach a bywiog
Fel ceiliog
Dandi, handi
Myn uffach-i.

Ond gyfeillion, maddeuwn,
Gorfoleddwn,
A diolchwn
i Dduw
Fod Bob Owen yn *FYW*!


**Cymdeithas Bob Owen**

# FFAIR LYFRAU

(Ail-law a Hynafiaethol)

## Ysgol Penweddig Aberystwyth

## Dydd Sadwrn 26 Ebrill

**10 y bore – 4 y prynhawn**

Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth,
yn ogystal â phrintiadau a hen fapiau.

Mynediad £1 (yn cynnwys te a choffi)
Agorir y ffair gan Mari Ellis
Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd (01970) 623174